Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Swiss Valley
Heol Beili Glas
Swiss Valley
Felinfoel
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 8DS

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Swiss Valley wedi'i lleoli ar gyrion tref Llanelli, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Yn Ionawr 2014, cynyddodd ysgol Swiss Valley ei hystod oedran i 3-11, gan integreiddio'r disgyblion o'r ddarpariaeth beilot feithrin newydd. Mae 237 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 23 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae naw o ddosbarthiadau yn yr ysgol.

Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae bron yr holl ddisgyblion o ethnigrwydd Prydeinig gwyn, gydag ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith yn y cartref, ac mae ychydig iawn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Nododd yr ysgol fod anghenion dysgu ychwanegol gan 16% o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Yn Chwefror 2009 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf. Ymgymerodd y pennaeth presennol â'i swydd yn 2003.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Swiss Valley yn 2014-2015 yw £3,328. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Gynradd Swiss Valley yn safle 94 o'r 95 ysgol gynradd yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mewn gwersi a thros gyfnod, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol
- Mae bron yr holl ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol, yn gweithio'n galed ac yn dangos balchder yn eu cyflawniadau
- Mae'r ysgol yn darparu llawer o brofiadau dysgu buddiol a diddorol sy'n dal diddordeb a brwdfrydedd yr holl ddisgyblion mewn dysgu
- Mae Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eithriadol
- Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth gyfoes, dda am y cwricwlwm ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu medrau disgyblion
- Mae gweithdrefnau asesu'r ysgol yn rhai trwyadl
- Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgar a hapus iawn, lle mae pob un o'r staff yn gwerthfawrogi disgyblion yn fawr

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gweledigaeth glir a phwrpasol gan y pennaeth, ac ymrwymiad cadarn i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl
- Mae llywodraethwyr yn gydwybodol ac yn gefnogol o'r ysgol
- Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda, ac yn helpu i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth a safonau
- Mae cysylltiad agos rhwng canlyniadau hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol
- Mae gwaith effeithiol yr ysgol gydag ystod eang o bartneriaid yn cael effaith fuddiol ar les a dysgu disgyblion
- Mae partneriaeth gadarn gan yr ysgol â rhieni, sy'n gadarnhaol iawn ynglŷn â phob agwedd ar fywyd yr ysgol
- Mae'r ysgol yn defnyddio athrawon a chynorthwywyr addysgu yn dda i fodloni anghenion disgyblion, ac mae'n gwneud defnydd da o'u medrau a'u harbenigedd
- Er bod diffyg yng nghyllideb yr ysgol, mae'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llefaredd Cymraeg disgyblion a chynyddu eu defnydd o'r iaith y tu allan i wersi Cymraeg

A2 Cynyddu annibyniaeth disgyblion er mwyn eu galluogi i wella eu gwaith eu hunain a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu

A3 Codi lefelau presenoldeb

A4 Sicrhau bod marcio athrawon yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt wneud i wella eu gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dod i mewn i'r ysgol gyda medrau sy'n debyg i hynny a ddisgwylir. Mewn gwersi a thros gyfnod, mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, ac mae disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda iawn ar draws yr ysgol. Maent yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr a'i gilydd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn awyddus i drafod eu gwaith, ac yn cynnig esboniadau diddorol ynglŷn â'u tasgau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu, er enghraifft am Reilffordd Llanelli.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar y lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, neu uwchlaw'r lefel honno. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â darllen ac yn siarad yn hyderus am y llyfrau y maent yn eu hoffi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o strategaethau, gan gynnwys medrau ffonig, i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio medrau darllen lefel uwch fel llithrddarllen a chipddarllen yn effeithiol i gasglu tystiolaeth o destunau ffeithiol a'r rhyngrwyd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae disgyblion iau yn cyfleu eu syniadau yn dda mewn brawddegau syml. Erbyn diwedd Blwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio atalnodi mwy cymhleth yn dda, ac yn defnyddio ystod eang o eirfa yn effeithiol. Maent yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig estynedig yn hyderus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn disgrifio bywyd fel penbwl.

Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig mewn ffordd ddifyr, ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn defnyddio geirfa soffistigedig yn fedrus i wella eu hysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am fathau gwahanol o ysgrifennu yn llwyddiannus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau manwl ar ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu gallu i wella eu gwaith drwy ailddrafftio.

Mae medrau cyflwyno a llawysgrifen yn dda ac mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dangos balchder mawr yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau rhifedd. Maent yn datrys problemau drwy'r heriau y maent yn ymgymryd â

nhw sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o feysydd dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio ystod dda o ffeithiau rhif gyda dealltwriaeth, yn dechrau mesur yn gywir ac mae ganddynt wybodaeth addas am siapiau. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn defnyddio'u gwybodaeth rifiadol yn fedrus. Er enghraifft, maent yn llunio cronfa ddata ar anifeiliaid anwes ac yn dadansoddi ac yn cyflwyno'r wybodaeth yn hyderus.

Mae gafael gadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ar fedrau rhifedd priodol ac maent yn eu defnyddio'n hyderus i ddatrys problemau pob dydd. Mae eu dealltwriaeth o werth lle yn dda, ac mae llawer yn ymdrin ag agweddau ar fesur yn hyderus. Er enghraifft, maent yn datrys problemau ar sail damcaniaeth y dyn Fitrwfaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn casglu, yn dadansoddi ac yn cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol mewn amrywiaeth o graffiau gwahanol. Maent yn adalw ffeithiau yn gyflym, yn esbonio eu strategaethau pen yn glir ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'u hymresymu rhifiadol a'u medrau rhif yn gynyddol ar draws meysydd perthnasol o'r cwricwlwm.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r Gymraeg yn datblygu'n effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn defnyddio cystrawen sylfaenol yn dda yn eu hysgrifennu, ac mae'r disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig yn effeithiol. Maent yn darllen llyfrau yn fedrus gyda lefel briodol o ddealltwriaeth, yn unol â'u hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw'r hyder gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i siarad Cymraeg mewn gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion eraill yn eu dosbarth. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae gwaith mewn llyfrau a gwersi yn dangos bod cynnydd disgyblion mwy abl yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion dros y tair blynedd diwethaf o ran y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn bennaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch (deilliant 6), mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol wedi aros yn y 25% uchaf yn bennaf. Mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd wedi symud yr ysgol o'r 25% uchaf i'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn llyfrau ac yn ystod arsylwadau o wersi, dros gyfnod yr arolygiad, yn well nag y mae data perfformiad yr ysgol yn ei awgrymu.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi amrywio cryn dipyn. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn bennaf, ond mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth wedi tueddu bod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn deall yr angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a phwysigrwydd diet iach a ffordd iach o fyw. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, ac yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion eraill. Maent yn mwynhau'r ysgol, yn gweithio'n galed ac yn dangos balchder yn eu cyflawniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i ddysgu. Ymgymerant â chyfrifoldebau o'u gwirfodd ac mae rôl y cyfeillion iard chwarae yn datblygu'n dda. Mae cyngor yr ysgol yn cynrychioli llais y disgyblion yn effeithiol ac mae wedi cyflwyno offer lle chwarae newydd. Mae grwpiau disgyblion eraill, fel gweithlu'r tir a'r milwyr menter, yn llwyddiannus o ran datblygu medrau entrepreneuraidd y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2, ac mae Clwb Afal yn cynnal sesiynau galw heibio misol os oes unrhyw faterion yn ymwneud â'r rhyngrwyd yn codi. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o e-ddiogelwch. Mae aelodau Clwb Afal yn barnu difrifoldeb y mater a byddant yn ymateb yn briodol, naill ai drwy ddatrys y mater eu hunain neu drafod gydag aelod o staff. Fodd bynnag, cyfyngedig yw ymglymiad y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth osod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol buddiol. Dangosant lefelau uchel o bryder ac mae llawer ohonynt yn dod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymdogaeth, er enghraifft drwy gasglu bwyd ar gyfer banc bwyd lleol.

Mae'r cyfraddau presenoldeb, er eu bod wedi gwella'n nodedig dros y tri thymor diwethaf, wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros bum mlynedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n cwmpasu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Nid yw gwersi ar gyfer y disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn darparu digon o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau yn cael eu harwain gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran ymgorffori'r fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ei chynllunio. Mae'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr ac yn adeiladu'n gynyddol ar fedrau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, a cheir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion atgyfnerthu medrau ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn creu codau Ymateb Cyflym ar gyfer y disgyblion iau er mwyn gwella eu medrau ymchwilio. Ceir cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt gyda'u dysgu.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau preswyl yn cyfoethogi dysgu disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Mae athrawon yn datblygu gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus mewn gwaith testun ar draws y cwricwlwm. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn Gymraeg mewn gwersi yn dda. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith y tu allan i wersi ffurfiol yn llai effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eithriadol. Mae gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol wedi'u cyfoethogi yn galluogi'r holl ddisgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda iawn o ailgylchu, byw'n gynaliadwy a sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar yr amgylchedd. O ganlyniad i'r cyfleoedd hyn, mae disgyblion hŷn yn dangos dealltwriaeth aeddfed o foeseg ac economeg Masnach Deg. Mae dealltwriaeth gadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o'u lle yn y byd ehangach drwy gysylltiadau â dau o blant yn Tanzania a Swaziland a thrwy amryw o ddigwyddiadau blynyddol codi arian at elusen.

**Addysgu: Da**

Mae gwybodaeth gyfoes am y cwricwlwm gan bob un o'r athrawon ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae pob un o'r athrawon yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn dda, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog ymgysylltiad â dysgu. Mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi gwaith disgyblion yn dda mewn gwersi.

Mewn llawer o ddosbarthiadau lle mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol, mae athrawon yn amlinellu amcanion dysgu yn glir i ddisgyblion. Mae cyflwyniadau i wersi yn fywiog a phwrpasol ac mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn cael eu cymell a'u herio yn dda. Yn yr ychydig wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae'r rhediad yn rhy araf ac mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel.

Mae gweithdrefnau asesu'r ysgol yn drwyadl. Mae arweinwyr yr ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn dda. Defnyddir ystod addas o weithdrefnau asesu yn effeithiol gan athrawon, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i fyfyrio ar, a chywiro, eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Effaith gyfyngedig ar gynnydd disgyblion a gaiff y broses o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn gymorth i ddisgyblion i nodi eu camau nesaf er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys gwybodaeth glir am gynnydd bob plentyn ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd gofalgar a hapus iawn lle mae pob un o'r staff yn gwerthfawrogi disgyblion yn fawr. Mae profiadau dysgu yn yr ysgol ac ar ymweliadau addysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda. Caiff cynlluniau

rheolaidd eu cynllunio gan yr ysgol i ddisgyblion er mwyn datblygu eu medrau fel dinasyddion gweithgar yn yr ysgol a'r gymuned leol, ac mae hyn yn dylanwadu'n llwyddiannus ar eu lles emosiynol. Mae'r rhaglen sy'n hyrwyddo gwerthoedd misol yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion. Mae gwasanaethau rheolaidd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Gwneir trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos ag ystod eang o wasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth ac arweiniad addas i rieni a disgyblion ag anghenion unigol. Mae staff yn gofyn am gyngor yn rheolaidd gan wasanaethau arbenigol, ac yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a roddir iddynt. Er enghraifft, mae'r grwpiau anogaeth sydd newydd eu sefydlu yn dylanwadu'n llwyddiannus ar hunanhyder disgyblion, ac mae hyn wedi arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol. Maent yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn gosod targedau clir ar gyfer gwella yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni, a chânt eu cynnwys yn llawn wrth osod targedau a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae staff addysgu a staff cymorth yn darparu lefelau da o gymorth mewn grwpiau bach i ddisgyblion sydd wedi'u targedu er mwyn datblygu eu hyder a'u hunan-barch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chroesawgar iawn i'r holl ddisgyblion. Mae'r staff yn creu amgylchedd anogol sy'n arwain at lefelau uchel o ran lles disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn gwbl gynhwysol, yn ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion ac yn dathlu amrywiaeth ac ystod o ddiwylliannau yn dda. Dangosir goddefgarwch, tegwch a pharch at eraill gan bob un o'r disgyblion.

Mae adeiladau'r ysgol o safon dda ac yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw yn dda. Mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol, ac mae arddangosiadau ar waliau ar draws yr ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda. Ceir ystod dda o adnoddau dysgu i gefnogi holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r lle sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ym mloc cyfnod allweddol 2 yn creu ardal ddysgu bwrpasol lle mae disgyblion yn elwa ar sesiynau grŵp â ffocws ac yn datblygu eu medrau coginio.

Mae'r amgylchedd awyr agored eang yn ysgogol i bob un o'r disgyblion, ac yn eu helpu i ddatblygu amrywiaeth o fedrau. Mae staff yn gwneud defnydd creadigol o ardal y rhandir i gyfoethogi profiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn elwa ar ardal ddysgu awyr agored eang sy'n cymell eu dysgu yn briodol. Mae'r holl fannau chwarae yn cynnwys gweithgareddau awyr agored addas i annog datblygiad corfforol yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir a phwrpasol gan y pennaeth, ac ymrwymiad cadarn i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus â phob un o'r staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol. Mae'r uwch dîm rheoli yn hyrwyddo arweinyddiaeth gref ac mae aelodau yn gweithio'n dda â'i gilydd i roi ffocws clir i'r ysgol.

Mae'r holl aelodau staff yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn ddyfal ac yn gweithio'n agos i greu ethos cefnogol ar draws yr ysgol gyfan. Maent yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau a darpariaeth. Ceir systemau cyfathrebu da i roi gwybodaeth lawn a chyson i staff am bob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, yn dda. Maent yn gweithredu strategaethau yn llwyddiannus i leihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae llywodraethwyr yn gydwybodol ac yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn deall sut mae'r ysgol yn perfformio ac yn herio arweinwyr yn effeithiol ynglŷn â safonau a chyrhaeddiad disgyblion. Drwy'r system 'cyfeillion', mae'r llywodraethwyr yn dysgu am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn ogystal â phob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae gan lywodraethwyr rôl strategol gadarn wrth baratoi'r adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol. Er enghraifft, fe wnaethant adnabod angen i wella'r deilliannau cyffredinol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ac maent wedi chwarae rhan allweddol yn sefydlu'r ddarpariaeth feithrin. Mae hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda yn yr ysgol a chaiff ei defnyddio i sicrhau gwelliannau mewn safonau ac ansawdd. Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o dystiolaeth i arfarnu perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data'n drwyadl, arsylwadau o wersi a thrafodaeth feirniadol gyda staff ynglŷn â bywyd yr ysgol. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i lunio adroddiad hunanarfarnu. Er nad yw hwn yn ddigon arfarnol bob amser, mae'n nodi cryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth yn casglu barnau llywodraethwyr a staff yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Mae'n defnyddio holiaduron yn dda i ofyn am farnau rhieni, ac yn gweithredu ar y wybodaeth yn effeithiol. Mewn ymateb i adborth gan rieni, mae'r ysgol wedi cyflwyno fforwm rhieni sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i rieni gael dealltwriaeth ddyfnach, er enghraifft, o'r fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safon gwaith cartref a gynhyrchir.

Mae cysylltiad agos rhwng canlyniadau hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol yn glir ac yn cynnwys targedau heriol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ystod eang o dargedau addas a

meini prawf llwyddo penodol. Mae'n nodi'r staff sy'n gyfrifol am bob targed a cheir graddfeydd amser realistig. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn mynd i'r afael â meysydd a nodwyd yn flaenorol i'w gwella. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cyflwyno dull ysgol gyfan o wella llythrennedd sydd wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar godi safonau ysgrifennu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid a chaiff hyn effaith fuddiol ar les a dysgu disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â rhieni, ac maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â phob agwedd ar fywyd yr ysgol. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn groesawgar ac yn gwybod bod yr ysgol yn gwerthfawrogi eu cefnogaeth. Mae rhieni a ffrindiau'r ysgol yn codi cyllid sylweddol drwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol i ddisgyblion, rhieni a staff. Mae'r pryniant mwyaf diweddar gan ffrindiau'r ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen ar draws yr ysgol.

Mae diwrnodau agored, digwyddiadau codi arian a gwerthiannau llysiau o'r rhandir yn hyrwyddo ymdeimlad cadarn yr ysgol o gyfranogi yn y gymuned. Mae gweithdai a gynhaliwyd gan ddwy gymdeithas chwaraeon broffesiynol leol yn hyrwyddo ffyrdd iach disgyblion o fyw yn dda. Mae cysylltiadau sefydledig gyda busnesau lleol yn darparu cymorth hanfodol i agweddau ar y ddarpariaeth cwricwlwm ac yn gwella profiadau allgyrsiol disgyblion yn llwyddiannus. Hefyd, mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn prosiect gyda'r coleg lleol i ddylunio mainc goffaol i'r meysydd brwydro yn Flandrys. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r feithrinfa ran-amser a'r ddarpariaeth gofal plant ar y safle yn sicrhau bod disgyblion yn cael sylfaen gadarn cyn dechrau'r ysgol, ac mae'n helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym mewn addysg amser llawn yn yr ysgol. Ceir cysylltiadau cadarn â'r ysgol uwchradd leol, gyda gweithgareddau pontio pwrpasol sy'n cynorthwyo disgyblion hŷn i drosglwyddo i'r cam nesaf o'u haddysg.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag ysgolion yn y clwstwr i sicrhau cysondeb wrth lefelu gwaith disgyblion. Mae cysylltiadau pwrpasol gydag ysgolion eraill i rannu arfer dda yn arwain at welliannau mewn safonau gwaith disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad proffesiynol staff.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio athrawon a chynorthwywyr addysgu yn dda i fodloni anghenion disgyblion, ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o'u medrau a'u harbenigedd penodol. Ceir trefniadau trwyadl yn yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol pob un o'r staff. Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol.

Mae staff yn elwa ar weithio mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Er enghraifft, mae aelodau staff yn gweithio'n agos â chydweithwyr o ysgolion cynradd partner i rannu arfer dda mewn perthynas â disgyblion mwy abl a thalentog. O ganlyniad, mae cynlluniau unigol manwl gan yr ysgol ar gyfer y disgyblion hyn, ac maent yn dylanwadu'n effeithiol ar eu cynnydd a'u deilliannau.

Mae'r pennaeth a llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus, ac mae ganddynt systemau effeithiol i sicrhau bod penderfyniadau yn bodloni'r anghenion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol.  Ar hyn o bryd, mae diffyg mawr gan yr ysgol yn ei chyllideb.  Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith sylweddol ar ddeilliannau disgyblion, ac mae gan y pennaeth a llywodraethwyr, ar y cyd â'r awdurdod lleol, gynllun gweithredu manwl i leihau'r diffyg hwn.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddarparu cymorth 'anogaeth' a sesiynau grŵp bach ar gyfer disgyblion dynodedig.  Mae'r ddarpariaeth ychwanegol hon yn dylanwadu'n llwyddiannus ar feysydd rhifedd, technoleg gwybodaeth a lles disgyblion.

Er bod diffyg yn ei chyllideb gan yr ysgol, mae'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn golygu bod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692176 - Ysgol Gynradd Gymunedol Swiss Valley**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 223 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 22 | 35 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 35 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 91.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.4 | 51.4 | 43.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 35 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.8 | 60.0 | 52.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 35 | 23 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.4 | 77.1 | 69.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692176 - Ysgol Gynradd Gymunedol Swiss Valley**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 223 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 31 | 27 | 29 | 37 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.3 | 74.1 | 96.6 | 97.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 27 | 29 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.5 | 74.1 | 96.6 | 97.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 51.6 | 37.0 | 48.3 | 40.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 27 | 29 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 88.9 | 96.6 | 97.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.9 | 37.0 | 44.8 | 40.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 27 | 29 | 37 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.8 | 85.2 | 96.6 | 97.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.9 | 40.7 | 41.4 | 45.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 99 | 97<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 83 | 69<br>83% | 14<br>17% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 99 | 95<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 96<br>98% | 2<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 99 | 90<br>91% | 9<br>9% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 99 | 95<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 98<br>99% | 1<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 99 | 95<br>96% | 4<br>4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 99 | 85<br>86% | 14<br>14% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 99 | 89<br>90% | 10<br>10% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 99 | 56<br>57% | 43<br>43% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 99 | 71<br>72% | 28<br>28% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 71 | 42 | 29 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 72 | 52 | 20 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 71 | 53 | 17 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 24% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 71 | 47 | 23 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 32% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 67 | 34 | 28 | 5 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 51% | 42% | 7% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 70 | 47 | 23 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 72 | 48 | 24 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 64 | 36 | 26 | 2 | 0 | 8 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 56% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 69 | 42 | 24 | 3 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 35% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 70 | 48 | 20 | 2 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 69% | 29% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 70 | 45 | 24 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 56 | 32 | 24 | 0 | 0 | 12 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 72 | 31 | 34 | 7 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 47% | 10% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 72 | 46 | 23 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 64% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 67 | 32 | 31 | 4 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 46% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 67 | 40 | 27 | 0 | 0 | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 42 | 27 | 13 | 1 | 1 | 23 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 64% | 31% | 2% | 2% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 70 | 44 | 25 | 1 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 36% | 1% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 70 | 41 | 27 | 2 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 59% | 39% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| R Richard Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceri Morris | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.